Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Hafan Dyfodol Disglair
**Adran Addysg**
**Park Mount**
**Ffordd Glanhwfa**
**Llangefni**
**Ynys Môn**
**LL77 7EY**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 13/07/2016**

## Cyd-destun

Mae Hafan Dyfodol Disglair (Yr Hafan) yn uned cyfeirio disgyblion ar gyfer disgyblion 11-16 oed sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae Hafan Dyfodol Disglair yn cyfeirio ati ei hun fel ysgol, felly dyma'r term sy'n cael ei ddefnyddio yn yr adroddiad hwn.

Mae darpariaeth uned cyfeirio disgyblion Ynys Môn wedi mynd drwy newidiadau sylweddol yn ystod y 12 mis diwethaf, o ran lleoliad yn bennaf. Erbyn hyn, mae gan yr uned cyfeirio disgyblion ddau safle. Mae darpariaeth cyfnod allweddol 3 wedi ei lleoli yng Nghanolfan Conwy, Llanfairpwll, ac wedi ei rheoli drwy gontract allanol gyda chwmni preifat. Mae darpariaeth cyfnod allweddol 4 wedi ei lleoli yng Nghanolfan Jesse Hughes, Caergybi.

Ar hyn o bryd, mae wyth disgybl yn yr Hafan. Mae gan bedwar disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Dechreuoedd yr athrawes mewn gofal yn ei swydd ym Medi 2015, ar sail dros dro. Mae hi hefyd yn swyddog addysg o fewn awdurdod lleol Ynys Môn.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr UCD | Digonol |
|---|---|
| **Rhagolygon gwella'r UCD** | **Anfoddhaol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- Mae agwedd llawer o'r disgyblion at ddysgu yn briodol
- Maent yn setlo i lawr i weithio yn gyflym, ac yn canolbwyntio'n dda ar y tasgau sydd yn cael eu gosod
- Mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn o ran medrau cyfathrebu
- Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd priodol mewn mathemateg
- Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn cydweithio'n dda iawn ac mae hyn yn effeithio'n bositif ar ymddygiad y disgyblion o fewn y dosbarth
- Mae'r staff yn llwyddo i greu awyrgylch tawel a heddychlon sy'n darparu naws briodol ar gyfer helpu'r disgyblion i fagu hyder
- Mae gan yr ysgol ethos cartrefol, gofalgar, sy'n hyrwyddo parch tuag at blant ac oedolion

Fodd bynnag:

- Nid yw'r disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu estynedig yn ddigonol ar draws y cwricwlwm
- Mae cyfartaledd presenoldeb disgyblion dros y tair blynedd ddiwethaf wedi bod yn anghyson ar draws y ddau gyfnod allweddol
- Nid yw'r cwricwlwm yn caniatáu i'r mwyafrif o ddisgyblion barhau â rhai cyrsiau y maent wedi eu dilyn yn y prif lif
- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg ar draws yr ysgol yn annigonol
- Nid yw'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau wedi ei ddatblygu'n ddigon effeithiol
- Mae safon yr addysgu ar draws yr ysgol yn rhy amrywiol
- Nid yw'r trefniadau ar gyfer adnabod a diwallu anghenion disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn ddigon trylwyr
- Cododd y tîm arolygu nifer o faterion yn ymwneud â diogelu gyda'r ysgol

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn anfoddhaol oherwydd:

- Nid oes gan yr awdurdod lleol drefniadau pendant yn eu lle o ran arweinyddiaeth ar gyfer y dyfodol
- Nid yw'r athrawon bob amser yn deall gofynion eu rôl yn llawn
- Nid yw'r athrawon wedi cael hyfforddiant digonol mewn meysydd allweddol yn ymwneud â dysgu ac addysgu
- Nid yw rôl y pwyllgor rheoli fel cyfaill beirniadol wedi ei datblygu

- Megis dechrau cael eu datblygu y mae prosesau hunanarfarnu'r ysgol
- Nid oes digon o bwyslais ar fonitro gwaith disgyblion ac arsylwi gwersi fel rhan o broses rheoli perffromiad a sicrhau ansawdd
- Nid yw arweinwyr yn defnyddio data yn ddigon miniog er mwyn cynllunio'n strategol i godi safonau.

## Argymhellion

A1 Gwella safonau a phresenoldeb disgyblion ar draws yr ysgol

A2 Sicrhau bod y pynciau a'r cymwysterau a gynigir yng nghyfnod allweddol 4 yn bodloni anghenion y disgyblion

A3 Sicrhau bod medrau rhifedd a llythrennedd yn cael eu cynllunio'n fwriadus ar draws y cwricwlwm

A4 Gwella ansawdd yr addysgu ac asesu ar draws yr ysgol

A5 Gwella prosesau ar gyfer adnabod a diwallu anghenion disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol

A6 Gosod trefniadau hir dymor ar gyfer arweinyddiaeth yr ysgol er mwyn sicrhau gwelliant parhaus

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn bod angen gwelliant sylweddol ar yr UCD hon.  Bydd yr UCD yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr UCD tua 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae agwedd llawer o'r disgyblion at ddysgu yn briodol. Maent yn setlo i lawr i weithio yn gyflym, ac yn canolbwyntio'n dda ar y tasgau sydd yn cael eu gosod. Pan gânt y cyfle, gall mwyafrif o'r disgyblion weithio'n annibynnol.

Nid yw'n briodol cymharu'r safonau mae'r disgyblion yn eu cyflawni yn yr ysgol â chyfartaleddau cenedlaethol, oherwydd nifer y disgyblion ac amrywiaeth eu hanghenion dysgu.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae data'r ysgol yn dangos bod mwyafrif y disgyblion dros y tair blynedd diwethaf wedi gwneud cynnydd cyson o ran eu medrau siarad a gwrando, darllen, ysgrifennu, rhifedd, datblygiad personol a chymdeithasol a chyfathrebu cymdeithasol. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 4, nid yw'r ysgol yn gwneud asesiad gwaelodlin o'r disgyblion pan maent yn dechrau yn yr ysgol, felly nid ydynt yn gallu olrhain eu cynnydd dros amser.

Ar draws yr ysgol, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn o ran medrau cyfathrebu. Maent yn gwrando'n ofalus ac yn ateb cwestiynau'n effeithiol. Maent yn magu hyder ac yn cyfrannu'n effeithiol at drafodaethau o fewn gwersi ffurfiol a'r sesiynau tiwtorial. Mae'r disgyblion hŷn yn ystyried yn briodol faterion o bwys ac yn mynegi barn wrth drafod ystod o bynciau, er enghraifft bwlio.

Mae tua hanner y disgyblion yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig taclus ac yn sillafu ac atalnodi yn gywir. Mae'r lleill yn gwneud camgymeriadau sillafu rheolaidd, ac yn anaml iawn mae'r disgyblion hyn yn cywiro eu gwaith.

Mae'r disgyblion mwyaf galluog yn gwneud gwaith ysgrifenedig estynedig, ac mewn ychydig iawn o bynciau, maent yn ailddrafftio eu gwaith. Fodd bynnag, nid ydynt yn datblygu eu medrau ysgrifennu estynedig yn ddigonol ar draws y cwricwlwm. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio brawddegau byrion neu eiriau unigol wrth ateb cwestiynau ysgrifenedig, yn arbennig ar daflenni gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd priodol mewn mathemateg. Maent yn dangos dealltwriaeth dda o fesuriadau ac onglau. Maent yn trafod data yn ddeallus. Maent yn gwneud datblygiad buddiol yn eu medrau rhifedd trwy brynu cynhwysion ar gyfer y sesiynau coginio.

Mae bron pob disgybl yn defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn effeithiol i gynhyrchu cyflwyniadau ac i greu posteri. Mae disgyblion cyfnod allweddol 4 yn cynhyrchu cylchlythyr deniadol ac addysgiadol i'w anfon anfon at eu rhieni ac i randdeiliaid eraill. Maent yn defnyddio taenlenni yn effeithiol i gyfrif a chofnodi cost eu gweithgareddau awyr agored.

Mae'r disgyblion yn datblygu medrau pwysig trwy ystod o weithgareddau. Mewn gwersi coginio, maent yn dangos dealltwriaeth briodol o iechyd a diogelwch, wrth drin a thrafod cig heb ei goginio ac wrth ddefnyddio cyllyll miniog. Trwy'r gweithgareddau awyr agored, maent yn datblygu hyder, hunan-barch, dyfalbarhad a'r gallu i gydweithio ag eraill.

Mae'r ychydig o ddisgyblion sydd yn dilyn cwrs celf yn cynhyrchu gwaith o safon uchel.

O ganlyniad i ddiffyg cyfleoedd, nid yw'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu eu medrau yn y Gymraeg yn ddigonol. Fodd bynnag, mae agwedd bron pob un disgybl tuag at y Gymraeg yn gadarnhaol.

Mae disgyblion cyfnod allweddol 3 yn ennill ystod o gymwysterau a gwobrau am eu gwaith awyr agored, er enghraifft cymwysterau mewn canwio a hwylio a thystysgrif cymorth cyntaf.

Yn 2014-2015, llwyddodd pob disgybl yng nghyfnod allweddol 4 i ennill o leiaf un cymhwyster cydnabyddedig. Mae'r rhain yn cynnwys mathemateg a Saesneg lefel mynediad, mathemateg TGAU ynghyd â thystysgrifau BTEC a Sgiliau Hanfodol Cymru. Fodd bynnag, nid yw lefel y cymwysterau yn adlewyrchu gallu bob un o'r disgyblion.

Yn 2014-2015, aeth bron pob disgybl ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 ymlaen i hyfforddiant, addysg bellach neu waith.

Mae lleiafrif o ddisgyblion cyfnod allweddol 4 yn cymryd rhan yn llwyddiannus mewn profiad gwaith estynedig, er enghraifft mewn garej neu mewn canolfan awyr agored. Mae'r profiadau hyn yn eu cynorthywo i ddatblygu'r medrau sydd eu hangen arnynt ar gyfer y dyfodol.

Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae bron hanner disgyblion cyfnod allweddol 3 wedi ailintegreiddio'n llwyddiannus i ysgolion prif lif.

## Lles: Digonol

Mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os oes ganddynt bryder. Mae pob disgybl yn teimlo'n hyderus bod yr ysgol yn delio'n effeithiol â'r achosion prin iawn o fwlio.

Mae gan bob un o'r disgyblion ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd bwyta'n iach a chadw'n heini. Mae'r rhan fwyaf yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau ymarfer corff rheolaidd, yn ogystal â gweithgareddau awyr agored wythnosol.

Mae'r disgyblion yn lleisio eu barn yn rheolaidd trwy gyfarfodydd ffurfiol 'Ein llais' a llwydda llawer o'r disgyblion i gyfrannu'n aeddfed at y trafodaethau hyn. Mae eu safbwyntiau wedi dylanwadu yn gadarnhaol ar agweddau o fywyd yr ysgol. Er enghraifft, yn ddiweddar, mae disgyblion cyfnod allweddol 4 wedi llwyddo i gael offer ffitrwydd newydd.

Mae gan lawer o'r disgyblion agwedd gadarnhaol tuag at eu dysgu. Mae nifer wedi gwneud cynnydd da yn eu cyfradd presenoldeb unigol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, mae cyfartaledd presenoldeb disgyblion dros y tair blynedd ddiwethaf wedi bod yn anghyson ar draws y ddau gyfnod allweddol, a gwelwyd dirywiad yng nghyfnod allweddol 3 eleni.

Mae ymddygiad y rhan fwyaf o'r disgyblion yn briodol yn y dosbarth ac o gwmpas yr adeiladau yn ystod cyfnodau egwyl a chinio. Mae pob disgybl yn gwrtais tuag at staff yr ysgol ac ymwelwyr. Fodd bynnag, mae nifer y gwaharddiadau dros dro wedi bod yn uchel dros y ddwy flynedd diwethaf o achos ymddygiad ychydig iawn o ddisgyblion.

Mae'r disgyblion yn cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau cymunedol. Er enghraifft, maent yn trefnu gweithgareddau codi arian ar gyfer y gymuned leol. Mae hyn yn datblygu hunanhyder a medrau cyfathrebu a chymdeithasol y disgyblion yn effeithiol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Anfoddhaol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Anfoddhaol**

Mae'r ysgol yn cynnig ystod briodol o brofiadau dysgu i'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y ddau gyfnod allweddol. Fodd bynnag, nid yw'r cwricwlwm yn caniatáu i'r mwyafrif o ddisgyblion barhau â rhai cyrsiau y maent wedi eu dilyn yn y prif lif, er enghraifft gwyddoniaeth. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg ar draws yr ysgol yn annigonol.

Mae'r ysgol wedi cynyddu ystod a nifer y cymwysterau addas i'r disgyblion yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r rhain yn cynnwys opsiynau TGAU, Lefel Mynediad ac Agored Cymru. Fodd bynnag, hyd at eleni, nid yw ystod a lefel her y cymhwysterau wedi bod yn addas ar gyfer diwallu anghenion pob disgybl.

Mae ystod werthfawr o brofiadau awyr agored a gweithgareddau tu allan i'r ysgol yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion. Mae'r staff yn cynllunio amserlenni unigol priodol ar gyfer pob disgybl yng nghyfnod allweddol 4. Mae'r rhain wedi eu seilio ar eu diddordebau a, phan yn briodol, yn cynnwys lleoliadau profiad gwaith.

Nid yw'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau wedi ei ddatblygu yn ddigon effeithiol. O ganlyniad, prin iawn yw'r cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn dechrau darparu cyfleoedd addas ar gyfer hyrwyddo'r dimensiwn Cymreig. Er enghraifft, mae'r staff yn cyflwyno hanes a diwylliant Cymru trwy ymweliadau a gwaith gydag arlunwyr lleol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn effeithiol. Mae'r ysgol yn hybu dealltwriaeth y disgyblion o gynaliadwyedd trwy weithgareddau gwerthfawr fel coginio ac adeiladu blychau i adar ac ystlumod a'u hongian o amgylch y safle.

## Addysgu: Anfoddhaol

Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn cydweithio'n dda iawn ac mae hyn yn effeithio'n bositif ar ymddygiad y disgyblion o fewn y dosbarth. Mae'r staff yn llwyddo i greu awyrgylch tawel a heddychlon sy'n darparu naws briodol ar gyfer helpu'r disgyblion i fagu hyder. Mae'r staff yn canmol ac yn annog y disgyblion yn gyson sy'n help i feithrin hunan-werth y disgyblion.

Mae safon yr addysgu ar draws yr ysgol yn rhy amrywiol. Mewn lleiafrif o wersi, mae'r staff yn defnyddio ystod briodol o strategaethau ac adnoddau i gynnal diddordeb y disgyblion. Maent yn holi cwestiynau yn effeithiol i sicrhau dealltwriaeth.

Yn gyffredinol, nid yw'r cynllunio yn sicrhau bod y gwersi yn diwallu anghenion pob disgybl. Mae'r athrawon yn defnyddio gormod o daflenni gwaith sy'n golygu nad oes cyfleoedd digon rheolaidd i'r disgyblion i ysgrifennu'n estynedig. O ganlyniad, collir cyfleoedd i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion ar draws y cwricwlwm.

Yn y lleiafrif o wersi, nid oes digon o amrywiaeth yn y gweithgareddau i gynnal diddordeb pob disgybl ac i sicrhau cynnydd priodol. Yn y gwersi hyn, mae'r rhediad yn rhy araf.

Er bod yr ysgol yn casglu ystod o ddata asesu, nid yw'r staff yn dadansoddi nac yn defnyddio'r data yn effeithiol i gynllunio ac olrhain cynnydd y disgyblion.

Mae marcio ar draws yr ysgol yn anghyson. Mae diffyg cywiro sillafu ac atalnodi yn golygu bod disgyblion yn parhau i wneud camgymeriadau sylfaenol. Yn y mwyafrif o achosion, nid yw sylwadau'r athrawon yn helpu'r disgyblion i wella eu gwaith.

Mae cyfleoedd i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion yn brin.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Anfoddhaol

Mae perthynas waith effeithiol yn bodoli rhwng bron bob un o'r disgyblion ac oedolion ac mae hyn yn cyfrannu at ethos gofalgar yr ysgol. Mae trefniadau cadarn i gefnogi iechyd a lles disgyblion, gan gynnwys hybu bwyta ac yfed yn iach. Caiff y disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i gymryd rhan mewn ymarfer corff yn rheolaidd.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad moesol, diwylliannol a chymdeithasol y disgyblion yn effeithiol drwy'r cwricwlwm a'r sesiynau boreuol. Fodd bynnag, nid yw'r elfen ysbrydol yn cael ei datblygu'n gyson ar draws y ddau safle. Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofyn statudol ar gyfer addoli ar y cyd yn ddyddiol yn llawn.

Mae darpariaeth briodol ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol sydd yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am addysg ryw a pherthynas, camddefnyddio cyffuriau a sylweddau a chadw'n ddiogel. Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod eang o asiantaethau allanol er mwyn diwallu anghenion emosiynol a chymdeithasol y disgyblion. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb, ymddygiad a lles llawer o'r disgyblion.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cyflwyno polisi ymddygiad newydd yng nghyfnod allweddol 4. Mae'r disgyblion wedi cyfrannu'n adeiladol at ddatblygu'r polisi a'r system wobrwyo bresennol. Erbyn hyn, mae'r gweithdrefnau yn cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad ac ymroddiad llawer o'r disgyblion.

Mae'r ysgol yn diwallu'r gofynion statudol ar gyfer adrodd ac asesu a chofnodi ar gyfer y disgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae'r ysgol hefyd yn cynnal cyfarfodydd aml-asiantaethol defnyddiol iawn bob hanner tymor er mwyn adolygu cynnydd bob disgybl.

Nid yw'r trefniadau ar gyfer adnabod a diwallu anghenion disgyblion ag anghenion dysgu ychwangol yn ddigon trylwyr. Nid yw'r staff yn cynllunio'n briodol er mwyn bodloni anghenion unigol pob disgybl er mwyn sicrhau eu bod nhw'n gwneud cynnydd da. Mae gan bob disgybl gynllun addysg unigol. Fodd bynnag, nid yw'r targedau yn y rhan fwyaf o'r cynlluniau yn ddigon penodol ac heriol.

Cododd y tîm arolygu nifer o faterion yn ymwneud â diogelu gyda'r ysgol. Mae'r ysgol yn cymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r materion hyn.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan yr ysgol ethos cartrefol, gofalgar, sy'n hyrwyddo parch tuag at blant ac oedolion. Mae'r ysgol yn gymuned hapus sy'n annog pob disgybl i gymryd cyfrifoldeb ac i ymdrin â phobl eraill yn deg. Mae polisïau a gweithdrefniadau ac arferion yr ysgol yn hybu cydraddoldeb a mynediad cyfartal i'r ddarpariaeth. Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd lle mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel.

Mae'r ysgol yn cynnig amgylchedd dysgu priodol. Mae yna ddigon o ystafelloedd dosbarth deniadol gydag enghreifftiau o waith y disgyblion yn amlwg ar y waliau. Mae gan yr ysgol gyflenwad addas o adnoddau ar gyfer gwersi, yn cynnwys adnoddau i ddatblygu medrau digidol y disgyblion.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r ganolfan awyr agored i ehangu cyfleoedd y digyblion. Mae gan yr ysgol adnoddau chwaraeon addas i annog y disgyblion i gadw'n iach a heini.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Anfoddhaol** |

**Arweinyddiaeth: Anfoddhaol**

Mae'r athrawes mewn gofal yn ei swydd ers mis Medi, ar drefniant dros dro. Nid oes gan yr awdurdod lleol drefniadau pendant yn eu lle o ran arweinyddiaeth ar gyfer y dyfodol ac mae hyn yn ddiffyg pwysig. Serch hynny, mae'r athrawes mewn gofal yn arwain ei thîm yn frwdfrydig ac mae'r holl staff yn rhannu ei gweledigaeth, sef rhoi 'cyfle i bawb' er mwyn sicrhau dyfodol llwyddiannus i bob disgybl. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn cydweithio'n effeithiol i greu awyrgylch cadarnhaol lle mae disgyblion yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel. O ganlyniad, mae gan y disgyblion ymdeimlad o ymddiriedaeth gref tuag at yr oedolion sydd yn eu haddysgu ac yn eu goruchwylio.

Mae gan yr awdurdod addysg lleol gytundeb lefel gwasanaeth gyda darparwr annibynnol ar gyfer cyfnod allweddol 3. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod yn monitro ansawdd y ddarpariaeth hon yn ddigon rheolaidd.

Mae gan bob aelod o staff swydd ddisgrifiad cyfredol sy'n nodi rolau a chyfrifoldebau yn glir. Fodd bynnag, nid yw'r athrawon bob amser yn deall gofynion eu rôl yn llawn. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn derbyn hyfforddiant priodol yn ymwneud â materion lles pwysig, megis iechyd meddwl a strategaethau rheoli ymddygiad. Fodd bynnag, nid yw'r athrawon wedi cael hyfforddiant digonol mewn meysydd allweddol sy'n ymwneud â dysgu ac addysgu.

Nid yw'r ysgol yn ystyried blaenoriaethau cenedlaethol yn ddigon gofalus ac nid oes pwyslais digonol ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion na'u medrau yn y Gymraeg.

Mae'r pwyllgor rheoli yn cwrdd yn dymhorol ac maent wedi darparu cymorth ac arweiniad i'r ysgol ar faterion megis diogelu. Er bod yr aelodau'n frwdfrydig ynghylch datblygiad yr ysgol, mae eu presenoldeb yng nghyfarfodydd y pwyllgor rheoli yn amrywio. O ganlyniad, cyfyngedig iawn yw eu dealltwriaeth o gryfderau'r ysgol ac o'r meysydd i'w gwella. Nid yw eu rôl fel cyfaill beirniadol wedi ei datblygu.

Yn gyffredinol, mae polisïau a chynlluniau'r ysgol yn cael eu gweithredu'n briodol. Mae'r athrawes mewn gofal yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'i staff. Cedwir cofnodion priodol o drafodaethau mewn cyfarfodydd cynllunio a strategol. Fodd bynnag, nid oes digon o fanylder yn y cofnodion o ran gweithredoedd, cyfrifoldebau a therfynau amser.

**Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae'r awdurdod lleol wedi gwneud ychydig o newidiadau strategol pwysig sydd wedi gwella'r ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth ar gyfer yr ysgol. Mae pedair canolfan wedi cau ac mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 4 wedi adleoli i adeilad llawer mwy priodol ac addas at ei ddiben. Mae'r adleoli hwn wedi gwella'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'n academaidd ac yn gymdeithasol.

Mae dealltwriaeth yr athrawes mewn gofal o gryfderau'r ysgol, yn ogystal â meysydd i'w gwella, yn datblygu'n briodol.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn gyffredinol yn ddarlun cywir o gryfderau'r ysgol a meysydd sydd angen eu gwella. Fodd bynnag, mae arfarniad yr ysgol o ansawdd y profiadau dysgu ac ansawdd addysgu ac asesu yn rhy hael.

Megis dechrau cael eu datblygu y mae prosesau hunanarfarnu'r ysgol. Nid yw'r prosesau rheoli perfformiad yn cynnwys digon o bwyslais ar fonitro gwaith disgyblion ac arsylwi gwersi yn rheolaidd. Golyga hyn nad oes gan arweinwyr wybodaeth uniongyrchol am ansawdd addysgu na dealltwriaeth ddigonol o safonau disgyblion ar draws yr ysgol. O ganlyniad, nid yw'r athrawes mewn gofal na'r awdurdod lleol yn gallu cefnogi na herio staff er mwyn codi safonau.

Mae'r ysgol wedi dechrau casglu a dadansoddi ystod gyfyngedig o ddata addas. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn gwneud defnydd digon cynhwysfawr o'r data hwn er mwyn cynllunio'n strategol i godi safonau. O ganlyniad, ni all reolwyr adnabod meysydd pwysig i'w datblygu er mwyn llywio cynllun strategol pwrpasol.

Mae cynllun gwella'r ysgol yn adnabod pedwar maes i'w datblygu, sef codi safonau disgyblion, datblygu eu medrau TGCh, gwella partneriaethau a chodi safonau dysgu ac addysgu. Er bod manylion priodol am gyfrifoldebau a chostau, mae'r amserlen a threfniadau monitro yn rhy annelwig. Nid yw'r cynllun yn cynnwys targedau mesuradwy er mwyn dangos gwelliant mewn safonau.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae'r ysgol yn gweithio'n gynhyrchiol gydag ystod briodol o asiantaethau a phartneriaid er mwyn ehangu profiadau'r disgyblion.

Mae partneriaethau cryf gydag asiantaethau fel gwasanaethau iechyd a'r heddlu yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles disgyblion ar draws yr ysgol. Mae'r ystod eang o brofiadau a gynigir gan ddarparwyr a busnesau lleol yn cyfrannu tuag at ddatblygiad cymdeithasol a hunan-barch y disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys gweithdai sgiliau syrcas a gwaith diddorol gydag adrannau o'r brifysgol leol.

Mae partneriaeth gref gyda rhieni a gofalwyr. Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n effeithiol gyda rhieni a gofalwyr ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar agwedd ac ymddygiad y disgyblion.

Mae'r ysgol yn datblygu perthynas agos gyda lleiafrif o ysgolion uwchradd yr awdurdod. Mae hyn yn dechrau cael effaith fuddiol ar ansawdd y ddarpariaeth a'r gefnogaeth i ddisgyblion. Mae trefn gynhwysfawr a chynhaliol ar waith i ailintegreiddio disgyblion i mewn i ysgolion prif lif pan fydd yn briodol. Mae hyn yn cynnwys parhad yn y gefnogaeth gan staff yr ysgol i'r disgybl am gyfnod priodol.

Fodd bynnag, nid yw rheolwyr wedi datblygu partneriaethau effeithiol er mwyn gwella perfformiad a dealltwriaeth staff o'u rôl o ran codi safonau. O ganlyniad, nid oes gan yr athrawon ddealltwriaeth ddigonol o faterion pwysig megis strategaethau ar gyfer asesu gwaith disgyblion a datblygu eu safonau llythrennedd a rhifedd. Nid yw'r rheolwyr yn darparu digon o gyfleoedd i staff yr ysgol rwydweithio gyda staff mewn ysgolion eraill nac i arsylwi arfer dda.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan staff yr ysgol gymwysterau perthnasol ac ystod briodol o arbenigedd mewn gwahanol feysydd. Mae'r staff yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn ôl eu harbenigedd i fodloni anghenion y cwricwlwm. Mae'r athrawes mewn gofal, yr athrawon a'r cymorthyddion yn cydweithio'n dda i gefnogi anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol y disgyblion yn eu gofal.

Caiff pob un o'r staff amser cynllunio, paratoi ac asesu priodol.

Yn ddiweddar iawn, mae’r ysgol wedi mabwysiadu polisi priodol ar gyfer rheoli perfformiad athrawon a chymorthyddion. Mae anghenion hyfforddi staff unigol wedi eu nodi yn unol â'r polisi. Fodd bynnag, mae’r diffyg cysondeb o ran strategaethau rheoli perfformiad, megis arsylwi gwersi a monitro llyfrau, yn golygu nad yw gwir anghenion hyfforddi staff unigol o ran addysgu ac asesu wedi eu hadnabod yn ddigonol.

Mae’r staff yn derbyn ystod briodol o hyfforddiant mewn agweddau lles, megis anawsterau ymddygiadol ac emosiynol. Fodd bynnag, prin iawn yw’r cyfleoedd i staff dderbyn hyfforddiant mewn meysydd pwysig eraill megis addysgu, asesu a datblygiad llythrennedd a rhifedd disgyblion.

Yng ngoleuni’r cynnydd a'r safonau a gyflawnir gan y disgyblion, mae’r ysgol yn rhoi gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

**Ymateb i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Caroline Rees | Arolygydd Cofnodol |
| Delyth Gray | Arolygydd Tîm |
| David Owen Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Margaret Elisabeth Davies | Arolygydd Cymheiriaid |
| Jane Marr | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau ADY

**ADDLl**:  anawsterau dysgu dwys a lluosog

**ADHD**:  anhwylder gorfywiogrwydd diffyg canolbwyntio

**ADP**:  anawsterau dysgu penodol, yn cynnwys dyslecsia

**ADY**:  anghenion dysgu ychwanegol

**ASA**:  Anhwylder y Sbectrwm Awtistig, sy’n cynnwys Syndrom Asperger

**AYA**:  adnodd ychwanegol yr athro

**AYECh**:  Anawsterau Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol

**CY**:  Cod Ymarfer

**NAS**:  nam amlsynhwyraidd

**NC**:  nam ar y clyw

**NG**:  nam ar y golwg